O'r Pedwar Gwynt

DATGANIAD I'R WASG. Cyhoeddi rhifyn Gwanwyn 2018.

I'w ryddhau ar unwaith.

Cuddio cymhlethdodau

Olrhain hanes saith chwyldro ynni ar ein Daear, herio'r farn mai pleidlais hiliol oedd y bleidlais Brexit yng Nghymru, a phaentio tywysogaeth Dafydd Elis-Thomas.

Mae *O'r Pedwar Gwynt* yn gylchgrawn eangfrydig sydd â gogwydd byd-eang, ac mae'r hinsawdd a'r amgylchedd yn thema bwysig yn rhifyn Gwanwyn 2018 – pwnc sydd wedi ei esgeuluso yn y Gymru Gymraeg.

Cynog Dafis sy'n cyfweld **R Gareth Wyn Jones** am saith chwyldro ynni ein byd a pham ei fod o'r farn bod y ddynoliaeth ar lwybr peryglus. O ddiddordeb i unrhywun sy'n ymddiddori yn esblygiad dyn, mae'r sgwrs bwysig hon yn archwilio cwestiynau sydd ymhlith rhai pwysicaf ein hoes.

I sinema Tywyn yr aeth Golygydd Cysylltiol newydd *O'r Pedwar Gwynt*, Angharad Penrhyn Jones, i adolygu ffilm ddiweddaraf yr anturiaethwr a'r amgylcheddwr, Bruce Parry. Mae ei hysgrif, 'Dod at ein coed', yn **myfyrio ar natur enwogrwydd**, ar berthynas y ddynoliaeth gyda'r amgylchedd, ac ar gyflwr ymwybyddiaeth heddiw.

Arwyddocâd 'Y Ganrif Tsieineaidd' ar gyfer gweddill y byd sydd dan sylw gan Aled Gruffydd Jones. Adolygir cyfrolau diweddar dylanwadol yn y maes ganddo. Ond hanes dylanwad Cymro – hogyn fferm o Sir Gâr – ar ddatblygiad Tsieina a gawn gan Rowan Zhao, myfyrwraig ymchwil yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.

Cyhoeddir hefyd yn y rhifyn newydd hwn ystod eang o ysgrifau yn ymdrin â'r amrywiaeth arferol o bynciau:

Mae Catrin Ashton yn **herio'r farn mai pobl hiliol yn unig bleidleisiodd i adael yr Undeb Ewropeaidd** ac yn tynnu ar y cysyniad o 'obaith radical' wrth fyfyrio ar ei chymuned yng nghymoedd de Cymru.

Mewn erthygl amserol tu hwnt, mae Carl Morris yn trafod **effeithiau arferion corfforaethol Facebook ar y diwylliant Cymraeg**, gan ddadlau bod 'cyfaredd y gair "algorithm" yn cuddio cymhlethdodau'.

Gwyneth Lewis, yn ei thro, sy'n ein hannog i ystyried celwydd gramadeg; **T Robin Chapman** sy'n talu 'teyrnged anfwriadol' i'r beirniad a'r bardd, y diweddar Athro Bobi Jones; **Nerys Williams** sy'n trafod adfywiad y farwnad yng ngwaith dau o'n prif feirdd benywaidd; a

Tomos Owen sy'n rhoi sylw i ysgrifau M Wynn Thomas a'r 'doethineb a ddaw ar ben gyrfa gyhoeddi doreithiog'.

Yn ogystal â'r delweddau trawiadol arferol, mae rhifyn Gwanwyn 2018 yn cynnwys **cartŵn newydd sbon** gan Boz Groden sy'n **dychanu 'tywysogaeth' Dafydd Elis-Thomas**. Ceir hefyd ddetholiad o **nofel graffig** ar y gweill gan Siôn Tomos Owen**.**

Dywedodd Sioned Puw Rowlands: 'Mae *O'r Pedwar Gwynt* yn credu'n angerddol ym mhwysigrwydd darllen, holi a herio. Pan mae'r tir yn symud dan ein traed, hyder – a ffydd – yn ein gallu i ddadansoddi'n onest a rhoi llais i'n profiadau ein hunain, mewn cyd-destun byd-eang, sydd yn mynd i'n galluogi i symud ymlaen yn gadarn ar y llwybr cul.'

Mae rhifyn Gwanwyn 2018 hefyd yn cynnwys adolygiadau o *The Jews of Wales* gan Cai Parry-Jones a chyfrol Douglas Jones ar gomiwnyddiaeth a chenedlaetholdeb yng Nghymru. Ceir gwaith creadigol newydd gan **Huw Lawrence** ac **Emyr Lewis**, 'Dyddiadur myfyrdodau' **Jan Morris** – a **T H Parry-Williams** yw'r awdur yn ei elfen y tro hwn.

Yng ngholofn 'Socrates ar y stryd' mae Huw L Williams yn **trafod gormes** ac yn 'Gwynt y Dwyrain', cawn ein pryfocio gan Mihangel Morgan, sy'n gofyn **cwestiynau miniog am gefnogwyr Corbyn a'r sawl sy'n mynnu bod yn wleidyddol gywir ar draul gonestrwydd**. Cyhoeddir hefyd golofn newydd gan **Emyr Ll Gruffudd**, 'Cyffesion Llyfrbryf'.

Yn ôl y Golygydd Cysylltiol, Angharad Penrhyn Jones, 'Mae'n fraint cael ymuno â chriw *O'r Pedwar Gwynt* a bod yn rhan o fenter mor gyffrous. Dwi'n credu bod y cylchgrawn hwn yn rhan bwysig o'r tirwedd diwylliannol a gwleidyddol yng Nghymru. Mae yma ddyfnder a *nuance* sydd wedi mynd yn brin yn y gymdeithas sydd ohoni, ac sydd yn rhaid ei ddathlu a'i feithrin.'

Mae *O'r Pedwar Gwynt* ar gael drwy'r post, ar-lein ar pedwargwynt.cymru, ac mewn siopau llyfrau ledled Cymru; pris £4.95, 48tt.

DIWEDD

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag Angharad Penrhyn Jones trwy'r cyfeiriad ebost angharad@pedwargwynt.cymru neu ar **07896 984858.**

Nodiadau i'r Golygydd

• Mae *O'r Pedwar Gwynt* yn adlewyrchu ac yn cwestiynu syniadau am y Gymru gyfoes a'i lle yn y byd;

• Mae rhifynnau print yn ymddangos deirgwaith y flwyddyn – Haf, Gaeaf a Gwanwyn – a chyhoeddir deunydd newydd bob nos Fercher ar www.pedwargwynt.cymru;

• Sefydlwyd *O'r Pedwar Gwynt* yn 2016. Cyhoeddir y cylchgrawn gan O'r Pedwar Gwynt Cyf mewn partneriaeth ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, gyda chefnogaeth Cyngor Llyfrau Cymru;

• Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am *O'r Pedwar Gwynt* i'w chael ar y wefan. Gellir dilyn y cylchgrawn ar Facebook, Twitter ac Instagram.